**Cyfarfod: Y Cyd-bwyllgor Archwilio**
**Lleoliad: Trwy gyfrwng Teams**
**Dyddiad: 31 Mawrth 2026**
2pm – 4.50pm

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Ms Kate Curran (KC) Cadeirydd<br>David Macgregor (DM)<br>Ms Julie James (JJ)<br>Ms Caroline Wheeler (CW)<br>Mr Farhan Shakoor (FS) |
| **Aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio** | Ms Nicola Davies, Prif Swyddog Cyllid (ND)<br>Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (EH)<br>Ms Linda Williams, Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad (LW)<br>Mr David Harris, Pobl a Datblygu Sefydliadol (DH)<br>Mr Mark McSweeney, Uwcharolygydd Dros Dro (MM)<br>Ms Liz Reed, Rheolwr Perfformiad (LR)<br>Mr Richard Janas, Arolygydd (RJ)<br>Ms Fiona Roe, TIAA (FR)<br>Mr Jason Blewitt, Archwilio Cymru (JB)<br>Ms Michelle Reynolds, Pennaeth Cyllid Dros Dro (MR)<br>Ms Debby Jones, Rheolwr Gwybodaeth (DJ)<br>Mr Neil Evans, Rheolwr Busnes Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) (NE) |
| **Ymddiheuriadau** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddu (DLl)<br>Mr Ifan Charles, Prif Gwnstabl (IC)<br>Ms Carys Morgans, Prif Swyddog Gweithredol (CM)<br>Mr Gary Phillips, Dirprwy Prif Gwnstabl Dros Dro (GP)<br>Ms Gaynor Maddox, Pennaeth Rhaglenni a Newid (GM)<br>Mr Jonathon Maddock, TIAA (JM)<br>Ms Eleanor Ansell, Archwilio Cymru (EA) |
| **Datganiadau o fuddiant:** | Dim |

| | CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD (22 Hydref 2025) | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif y cam gweithredu** | **Crynodeb o'r cam gweithredu** | **I'w yrru yn ei flaen gan** | **Cynnydd** |
| 14 | Aildrefnu'r cyflwyniad seiberddiogelwch o gyfarfod mis Rhagfyr i ddyddiad diweddarach oherwydd yr angen i ystyried datganiad o gyfrifon 2024–2025 yng nghyfarfod mis Rhagfyr. | SCHTh | **Ar y gweill** – Bydd hyn yn cael ei gynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod a gynhelir ym mis Mehefin 2026. |
| 17 | Bod y rhesymau dros yr oedi wrth weithredu argymhellion adnoddau dynol a gynhwysir yn yr adolygiad dilynol dros dro yn cael eu rhannu ag aelodau. | LW | Ar y gweill – Mae gwaith yn mynd rhagddo i baratoi cynlluniau'r prosiect i'w hystyried gan y Grŵp Llywodraethiant Archwilio sydd bellach wedi'i ddisodli gan y Bwrdd Archwilio Canolog. |
| 19 | Bod yr argymhelliad sydd wedi'i gynnwys yn adolygiad yr Adran Rheoli Adnoddau Dynol – Recriwtio a Hyfforddiant mewn perthynas ag iTrent, sydd â dyddiad cau o fis Ebrill 2027, yn cael ei wirio am berthnasedd ac o ran a fydd yn cael ei gyflawni. | LW | **Ar y gweill** – y cynllun yw i bob aelod o staff ar bob lefel gael mynediad i ddata gweithlu byw drwy'r dangosfwrdd, a grëwyd drwy warws data i mewn i Power BI. Ar hyn o bryd dim ond i nifer gyfyngedig o unigolion sydd â mynediad i system iTrent y mae'r wybodaeth ar gael gan ei bod yn system gyfyngedig. Mis Ebrill 2027 yw'r amcangyfrif gorau ar hyn o bryd gan fod nifer o faterion i gytuno arnynt yn gyntaf, gan gynnwys cyllid ac adnoddau rheoli prosiectau. Bydd hyn yn parhau i fod yn weithred agored fel bod modd darparu adroddiadau cynnydd i'r pwyllgor. |
| | CRYNODEB GWEITHREDU O'R CYFARFOD AR (28 Ionawr 2026) | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 27 | Y Grŵp Llywodraethiant Archwilio i adolygu a oes rheolaethau digonol ar waith ar ôl i oriau gwaith newid ac ers diweddaru eu cofnod cyflogres. | MR / LW | **Ar y gweill** – nid yw hyn wedi'i drafod yn y Grŵp Llywodraethiant Archwilio eto, ond caiff ei drafod maes o law. Mae'r argymhelliad hwn wedi cael ei ddisodli gan argymhelliad A35 o gyfarfod mis Mawrth.<br><br>Ers hynny, mae'r Grŵp Llywodraethiant Archwilio wedi cael ei ddisodli gan y bwrdd Archwilio Strategol a Sicrwydd a fydd bellach yn ystyried y cam gweithredu hwn. |
| 30 | Bod adroddiad diweddaru pellach ar y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn cael ei ddarparu i gyfarfod nesaf y pwyllgor ar 31 Mawrth 2026. | LR | **Wedi'i gwblhau** – Ystyriwyd adroddiad diweddaru ar gamau gweithredu o fewn y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2026. |
| 31 | Bod y pwyllgor yn cael ei wahodd i arsylwi ymarfer profi gwasanaeth di-dor yn y dyfodol. | GM | **Ar y gweill** – Nid yw’r heddlu wedi llwyddo i benodi Swyddog Parhad Busnes. Mae cynlluniau ar y gweill i hysbysebu’r swydd ymhellach ond gan wneud y rôl yn llawn amser bellach, gyda’r gobaith o ddenu'r ymgeisydd cywir. Yn y cyfamser, mae'r heddlu wedi penodi staff i gynorthwyo gyda'r gwaith dros dro nes bod y swydd wedi'i llenwi. |
| 32 | Bod y pwyllgor yn cael gwybodaeth am drefniadau sgorio risgiau ac i KC rannu fframwaith asesu risg ei sefydliad. | GM | **Wedi'i gwblhau** – cafodd hyn ei gynnwys yn yr adroddiad risg ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod ar 31 Mawrth 2026. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 33 | Bod y cadeirydd yn rhannu gwybodaeth â'r heddlu mewn perthynas â gwybodaeth sgorio risg eu sefydliadau. | SCHTh | **Wedi'i gwblhau** – wedi'i rhannu y tu allan i'r cyfarfod. |
| 35 | NE i gysylltu ag aelodau'r pwyllgor am wirfoddolwyr i brofi mynediad gwestai i sianel Teams y Cyd-bwyllgor Archwilio. | SCHTh | **Ar y gweill** – gwirfoddolodd dau aelod ac mae mynediad gwestai wedi'i ganiatáu ar eu dyfeisiau. Bydd eitemau agenda ar gyfer cyfarfod 31 Mawrth yn cael eu lanlwytho i sianel Teams bwrpasol i brofi hygyrchedd. Mae angen gwaith o hyd i sicrhau mynediad hawdd at bapurau. |

**1. Cadarnhau cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2026**

Dywedodd NE fod angen diwygiad i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2026. Roedd hyn mewn perthynas â'r eitem yn ymwneud â Chrynodeb o'r Archwiliad Blynyddol a darparwyd y diwygiad canlynol:

"Cyflwynodd JB y Crynodeb o'r Archwiliad Blynyddol a oedd yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau gwaith Archwilio Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf. Hefyd, rhoddodd JB yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y ffi archwilio derfynol ar gyfer ymholiad a godwyd yng nghyfarfod y pwyllgor a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2025. Y ffi archwilio derfynol ar gyfer 2024/2025 oedd £133,958 o'i gymharu â'r ffi amcangyfrifedig yn y Cynllun Archwilio o £104,810, sy'n cynrychioli ffi ychwanegol o £29,150. Roedd hyn oherwydd materion a gododd o archwiliad y cyfrifon terfynol a gyflwynwyd i gyfarfod y pwyllgor ym mis Rhagfyr.

Nododd yr aelodau'r adroddiad a chafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r ffi ychwanegol a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â materion y flwyddyn flaenorol. Dywedodd ND fod cyfarfod wedi'i gynnal ag Archwilio Cymru a bod adroddiad cryno yn amlinellu'r trafodaethau wedi'i baratoi. Cadarnhaodd ND y bydd hyn yn cael ei rannu â'r pwyllgor ynghyd â chynllun gwella sydd wedi'i roi

ar waith er mwyn sicrhau bod canllawiau a gweithdai priodol yn cael eu cynnal i gefnogi'r tîm a sicrhau yr eir i’r afael â rhai o'r meysydd a amlygwyd yn yr archwiliad.”

Cytunodd yr aelodau i gymeradwyo'r cofnodion ar yr amod y gwneir y diwygiad uchod.

## 2. Adolygiad o’r camau gweithredu heb eu cyflawni

Ystyriodd yr aelodau'r camau gweithredu sydd heb eu cyflawni a gwnaethant drafod cam gweithredu A 27 a oedd wedi codi yn dilyn ystyried yr adolygiad cydweithredol o’r gyflogres pan roddwyd gwybod i’r aelodau fod gordaliadau wedi'u gwneud i staff oherwydd newidiadau i oriau gwaith. Roedd yr aelodau wedi cael gwybodaeth benodol y tu allan i'r cyfarfod ac wedi gofyn am adolygu'r maes hwn unwaith eto.

Cynghorodd DM y dylid diwygio’r cam gweithredu i “dylai TIAA gynnal adolygiad pellach i ganfod a oes rheolaethau digonol ar waith pan fydd newidiadau’n cael eu gwneud i oriau gwaith unigolyn gyda’r bwriad o osgoi gordaliadau”.

Cytunodd y pwyllgor y dylid cynnal adolygiad ac y dylai ystyried nid yn unig yr achosion yr oeddent wedi cael gwybod amdanynt ond unrhyw ordaliadau eraill fel bod ganddynt ddealltwriaeth lawn o'r mater.

Nodwyd ymhellach, fel rhan o'r adolygiad, y dylid ystyried a oedd y lefel sicrwydd gywir wedi'i darparu fel rhan o'r adolygiad blaenorol.

**Cam Gweithredu 36 – Cynnal adolygiad pellach i ganfod a oes rheolaethau digonol ar waith pan fydd newidiadau’n cael eu gwneud i oriau gwaith unigolyn gyda’r bwriad o osgoi gordaliadau.**

## 3. Cynllun Gwaith y Cyd-bwyllgor Archwilio

Cyflwynodd NE y cynllun gwaith drafft ar gyfer y cyfnod 2026/2027 a dywedodd y byddai cyfarfod ychwanegol yn cael ei drefnu ar gyfer mis Rhagfyr i sicrhau bod modd rheoli’r agendâu.

Nodwyd bod pedwar archwiliad mewnol heb eu cwblhau ar hyn o bryd sef Rheoli Newid TGCh, Seilwaith TGCh, Seiberddiogelwch, a Rheoli AD (absenoldeb arall). Cynghorwyd y pwyllgor y byddai angen cwblhau ac ystyried y rhain cyn cyflwyno'r cyfrifon drafft ddiwedd mis Mehefin. Cytunwyd y dylid trefnu cyfarfod ychwanegol ar gyfer diwedd mis Mehefin.

**Cam Gweithredu 37 – trefnu cyfarfod ychwanegol o'r pwyllgor ar gyfer diwedd mis Mehefin i ystyried adroddiadau archwilio 2025/2026 sydd heb eu cwblhau.**

**Cam Gweithredu 38 – trefnu cyfarfod ychwanegol o'r pwyllgor ar gyfer mis Rhagfyr.**

4. **Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor Archwilio**

Ystyriodd y pwyllgor y cylch gorchwyl diwygiedig a chytunwyd â'r rhan fwyaf o'r gwelliannau a awgrymwyd.

Cynghorodd FS nad oes angen newid nifer y cyfarfodydd ac y dylai'r datganiad aros fel "bydd o leiaf pedwar cyfarfod pwyllgor ffurfiol a hyd at ddau weithdy/seminar yn cael eu trefnu bob blwyddyn". Cytunodd y pwyllgor â'r cynnig hwn.

Cynghorodd FS ymhellach y dylid disodli'r gair 'ystyried' a defnyddio 'adolygu' yn ei le drwy gydol y ddogfen i gryfhau cylch gorchwyl a gwaith y pwyllgor. Cytunodd y pwyllgor.

Nododd y cadeirydd bwynt yn y ddogfen yn datgan, "adolygu'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd ar gyfer partneriaethau neu gydweithrediadau arwyddocaol" ac awgrymodd y dylid egluro i'r pwyllgor a yw hyn yn digwydd a beth y mae'n ei olygu'n ymarferol.

Yn dilyn trafodaeth, cymeradwyodd y pwyllgor y cylch gorchwyl yn amodol ar wneud y diwygiadau ychwanegol.

**Cam Gweithredu 39 – Bydd SCHTh yn cysylltu â'r Prif Swyddog Gweithredol i ganfod yr hyn sy'n ofynnol o'r datganiad sydd wedi'i gynnwys yn y cylch gorchwyl, sef "adolygu'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd ar gyfer partneriaethau neu gydweithrediadau arwyddocaol" ac yn rhoi adborth i'r pwyllgor.**

5. **Adroddiad Blynyddol y Cyd-bwyllgor Archwilio**

Gwnaeth y pwyllgor ystyried Adroddiad Blynyddol y Cyd-bwyllgor Archwilio a chynghorodd y cadeirydd fod rhai diwygiadau wedi'u darparu yn dilyn cyhoeddi'r agenda. Cytunodd y pwyllgor ar yr Adroddiad Blynyddol yn amodol ar wneud y diwygiadau perthnasol.

6. **Cael yr wybodaeth ddiweddaraf o gyfarfod y Grŵp Llywodraethiant Archwilio a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2026.**

Cyflwynodd MR yr wybodaeth ddiweddaraf o gyfarfod y Grŵp Llywodraethiant Archwilio a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2026.

Nododd y pwyllgor mai dyma oedd cyfarfod olaf y grŵp yn ei ffurf bresennol a byddai'n cael ei ddisodli yn y flwyddyn ariannol newydd gan y Bwrdd Sicrwydd Archwilio Strategol.

Gofynnodd DM i gylch gorchwyl y bwrdd newydd gael ei ddosbarthu ynghyd â dyddiadau cyfarfodydd i'r aelodau a bod NE yn cysylltu â'r pwyllgor i nodi'r gwirfoddolwr perthnasol i fod yn rhan o’r bwrdd newydd.

**Cam Gweithredu 40 – dosbarthu cylch gorchwyl a dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd Sicrwydd Archwilio Strategol i’r aelodau a phenodi cynrychiolydd o’r pwyllgor i fod yn aelod o’r bwrdd**

7. **Ystyried camau gweithredu cyfarfod y Grŵp Llywodraethiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2026**

Rhoddodd EH ddiweddariad ar gyfarfod y Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2026. Ni chodwyd unrhyw gamau gweithredu yn ystod y cyfarfod a chynhaliwyd trafodaethau mewn perthynas â'r Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol a gytunwyd gan y bwrdd. Trafodwyd diweddariad mewn perthynas â phapur gwyn Llywodraeth y DU ynghylch diwygio'r heddlu a'r costau cynyddol sy'n gysylltiedig â'r gwrthdaro presennol yn y Dwyrain Canol.

Croesawodd y pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf.

8. **Ystyried yr adroddiadau canlynol gan yr archwilwyr mewnol:**

    a. **Ystyried yr Adroddiad Cryno ar Sicrwydd Rheolaethau Mewnol (SICA)**

Cyflwynodd FR adroddiad SICA i'r aelodau ac atgoffodd yr aelodau o'r trafodaethau blaenorol ynghylch yr adroddiadau sydd heb eu cwblhau a fydd bellach yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod ychwanegol a gynhelir ym mis Mehefin 2026. Dywedwyd wrth yr aelodau fod yr oedi mewn perthynas â dau o'r archwiliadau oherwydd diffyg adnoddau o fewn TIAA oherwydd bod staff wedi ymadael. Mae staff newydd wedi'u penodi a fydd yn dechrau yn eu swyddi ym mis Mehefin. Cytunwyd ar adnoddau a dyddiadau i gyflawni'r archwiliadau TG sy'n weddill.

Nodwyd yr adroddiad gan y pwyllgor.

Cododd DM bryderon ynghylch canlyniad yr archwiliad o’r gyflogres o ystyried nifer y pryderon a nodwyd a gofynnodd am sicrwydd pellach ynghylch y rheolaeth sydd ar waith o fewn yr heddlu. Cytunodd FR (TIAA) i gynnal

adolygiad o'r archwiliad a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ynghylch maint a chanfyddiadau'r sampl.

**Cam Gweithredu 41 - TIAA i adolygu'r adroddiad archwilio gwreiddiol o'r gyflogres a rhoi sicrwydd pellach i aelodau ynghylch yr adolygiad a gynhaliwyd a'i ganfyddiadau.**

### b. Ystyried yr Adolygiad Dilynol

Cyflwynodd FR yr adroddiad a nododd EH fod anghysondeb i bob golwg rhwng yr argymhellion a'r wybodaeth i fynd i'r afael â'r argymhelliad. Rhoddodd MM yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd argymhellion TG nad oeddent wedi'u cynnwys yn adroddiad TIAA. Cytunodd MM i rannu'r diweddariadau â TIAA.

Nododd FS y byddai'r mater yn ymwneud â'r anghydweddiad rhwng argymhellion yn cael ei godi a'i ystyried gan y Bwrdd Strategaeth TGCh a byddai hyn yn sicrhau dull cyson.

### c. Ystyried yr Adolygiad Cydweithredol o Gyfathrebu Corfforaethol

Ystyriodd yr aelodau'r adolygiad cydweithredol o gyfathrebu corfforaethol a dywedwyd wrthynt fod yr adolygiad wedi darparu sicrwydd rhesymol.

Cwestiynodd CW a oedd gan y sefydliad ganllaw arddull corfforaethol ar gyfer cyfathrebu gan fod yna achosion o bostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol a oedd yn amrywiol o ran eu harddull. Dywedwyd mai'r swyddogion o fewn gwahanol feysydd fydd yn postio ar adegau ac nid staff o'r tîm cyfathrebu corfforaethol.

Gofynnodd CW beth sy'n digwydd pan fydd digwyddiad arwyddocaol, megis unigolyn coll, a bod y digwyddiad hwn y tu allan i oriau gwaith? A oes cynrychiolydd o'r tîm cyfathrebu corfforaethol ar gael? Dywedodd EH fod gwahanol fathau o gyflenwi ar gael a bod y rhain yn cynnwys staff o'r tîm cyfathrebu. Fodd bynnag, mae staff o fewn Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu a all bostio negeseuon cyfryngau cymdeithasol.

Nododd DM, mewn perthynas â'r capasiti, a yw'n gywir nodi bod problemau o ran capasiti o ystyried y nifer presennol o aelodau o staff, gan fod y niferoedd yn ymddangos yn fwy na digonol o'u cymharu â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus. Gofynnwyd i TIAA wneud y gymhariaeth hon wrth gwblhau adolygiadau archwilio mewnol ac y dylai'r rheolwyr gynnal goruchwyliaeth o ansawdd y cyfathrebiadau a anfonir gan yr heddlu.

Cododd DM bryderon ynghylch y trefniadau partneriaeth ac amlder cyfarfodydd y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth. Rhoddodd MM sicrwydd bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob chwarter a byddai'n rhannu manylion y tu allan i'r cyfarfod.

**Cam Gweithredu 42– MM i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio am drefniadau ymgysylltu partneriaeth Fforwm Lleol Cymru Gydnerth.**

### d. Yr Adolygiad Cydweithredol o’r Rhaglen Gyfalaf

Cyflwynodd FR yr adolygiad cydweithredol o'r rhaglen gyfalaf a dywedwyd wrthynt fod yr adolygiad hwn wedi cael sicrwydd sylweddol.

Croesawodd y pwyllgor yr adroddiad ond herwyd y sylwadau a wnaed mewn ymateb i'r argymhelliad i symud oddi wrth gofnodi ar Microsoft Excel i becyn meddalwedd rheoli asedau. Nodwyd y byddai hon yn dasg fawr a chymhleth, a byddai'r pwyllgor wedi disgwyl rhai sylwadau manylach. Dywedodd MR fod hyn wedi bod yn mynd rhagddo ers 18 mis yn dilyn argymhelliad gan Archwilio Cymru fel rhan o gyfrifon 2023/2024 i ystyried rhaglen Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer rheoli asedau.

Cododd yr aelodau bryderon nad oedd adroddiad TIAA yn adlewyrchu'r gwaith a wnaed dros y 18 mis diwethaf wrth ddatblygu'r system newydd. Cydnabu FR y sylwadau.

### e. Ystyried yr Adolygiad Sicrwydd o Gredydwyr

Ystyriodd y pwyllgor yr adolygiad sicrwydd o gredydwyr a oedd wedi cael sicrwydd sylweddol.

Gofynnodd CW a oedd y broses wirio ar gyfer cyflenwyr yn gadarn gan y cafwyd achosion o fusnesau bach yn cael eu heffeithio gan dwyll trwy ymgorffori cyflenwyr. Dywedodd MR fod hyn wedi cael sylw a bod gwelliannau wedi'u gwneud gan gynnwys galwad ffôn gyda'r cyflenwr i sicrhau bod unrhyw fanylion cyfrif yn gywir.

### f. Ystyried yr Adolygiad Sicrwydd o Hyfforddiant Gorfodol ar Reoli Adnoddau / Hyfforddiant

Ystyriodd y pwyllgor yr adolygiad sicrwydd o hyfforddiant gorfodol ar reoli adnoddau / hyfforddiant a dywedwyd wrthynt fod hyn wedi cael sicrwydd sylweddol.

Cynghorodd JJ y pwyllgor fod mwy o ffocws ar y maes hwn a'i fod wedi'i gynnwys ar gofrestr risg yr adran.

Rhoddodd LW yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor fod y gwaith yn parhau, a bod rhai gwelliannau uniongyrchol wedi'u gwneud. Mae mwy o graffu ar bresenoldeb gorfodol mewn cyrsiau ac mae canlyniadau bellach yn cael eu casglu a'u rhannu'n fisol. Mae sawl darn o waith ar y gweill gan gynnwys:

1. Mae fframwaith perfformiad arfaethedig ar gyfer Dysgu a Datblygu wedi'i gyflwyno i'r Uned Gwella Gwasanaeth i'w ystyried – dylai hyn ddarparu data gwell ar y galw am hyfforddiant o'i gymharu â'r hyfforddiant a ddarperir. Bydd hefyd yn darparu data ynghylch effeithlonrwydd trwy gyfraddau presenoldeb ar gyrsiau.
2. Mae prosesau casglu data gwell yn cael eu harchwilio ar gyfer mynychu cyrsiau, oherwydd bod y broses bresennol yn aneffeithlon. (Nodiadau presenoldeb wedi'u hysgrifennu â llaw yn cael eu mewnbynnu i iTrent)
3. Mae'r cydlynydd sgiliau yn dal i weithio ar wella gwerthuso cyrsiau a chamau dilynol o adborth cyrsiau. (Mae gwerthusiad ansoddol o hyfforddiant yn ddarn llawer mwy o waith i'w ystyried pan gytunir ar y fframwaith perfformiad cychwynnol a'i roi ar waith)
4. Mae'r cydlynydd sgiliau wedi cyflwyno cais i greu adroddiadau ychwanegol o iTrent i wella'r trosolwg o sgiliau nad ydynt yn gyfredol a'r hyfforddiant sydd ei angen. Dolenni i gynllun hyfforddi wedi'i gostio.
5. Ar hyn o bryd, caiff lefelau sgiliau (a bylchau sgiliau disgwyliedig) eu rhannu yng nghyfarfodydd y Grŵp Blaenoriaethu Hyfforddiant (Prif Uwch-arolygyddion) a'u hategu â gwaith cynllunio hyfforddiant i sicrhau bod digon o hyfforddiant yn bodloni targedau gorfodol.
6. **Mae hyfforddiant ar-lein gorfodol yn parhau i fod yn her i'w fonitro**, ond mae cyfraddau cwblhau yn cael eu rhannu yn nghyfarfodydd y Grŵp Blaenoriaethu Hyfforddiant. Mae trafodaethau'n parhau i geisio gwella'r broses hon.
7. Cyflwyno adroddiad drwy'r Grŵp Llywodraethiant Clinigol mewn perthynas â hyfforddiant cymorth cyntaf, i wella goruchwyliaeth a gofynion statudol i'w adnewyddu o fewn 365 diwrnod.

Gofynnodd y cadeirydd a oedd yn hysbys beth yw canran y presenoldeb ar gyfer hyfforddiant gorfodol. Nododd LW nad oedd yr wybodaeth hon wrth law yn y cyfarfod ond y gellir ei dosbarthu y tu allan iddo.

**Cam Gweithredu 43 – Dosbarthu diweddariad i'r aelodau a gwybodaeth am ganran y presenoldeb mewn hyfforddiant gorfodol y tu allan i'r cyfarfod.**

**g. Ystyried cynllun archwilio blynyddol 2026/2027**

Dywedodd y cadeirydd y cytunwyd ar y cynllun hwn yn y cyfarfod blaenorol ar y ddealltwriaeth y byddai adolygiad o lesoedd yn cael ei ddwyn ymlaen i gynllun y flwyddyn. Nodwyd bod yr adolygiad wedi'i ddwyn ymlaen a bod y cynllun wedi'i dderbyn.

### 9. Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol

Ystyriodd yr aelodau adroddiad diweddaru a Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol diwygiedig.

Mae'r aelodau'n croesawu'r gwaith a wnaed wrth baratoi'r adroddiad cwmpasu ac roedd hyn yn ddefnyddiol wrth nodi'r newidiadau a wnaed.

Cymeradwyodd y pwyllgor y Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol

### 10. Cynllun Ariannol Tymor Canolig, cronfeydd wrth gefn, a Strategaeth Gyfalaf

Ystyriodd yr aelodau'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, y cronfeydd wrth gefn, a'r Strategaeth Gyfalaf a gwnaethant ofyn i’r cynllun gael ei brawf-ddarllen eto i nodi unrhyw wallau.

Gofynnwyd pam y bu cynnydd sylweddol mewn rhai mathau o droseddau yn 2022. Dywedodd MM fod hyn yn ymwneud â’r ffaith bod y Swyddfa Gartref wedi newid yr egwyddorion cyfrif. Mae angen diweddaru'r ffigurau yn y tablau ar dudalen 21 gan nad ydyn nhw'n adio i fyny.

**Cam Gweithredu 44 – darparu gwybodaeth i aelodau y tu allan i'r cyfarfod am y cynnydd mewn troseddau penodol tua 2022.**

### 11. Strategaeth Rheoli’r Trysorlys

Ystyriodd y pwyllgor y Strategaeth Rheoli Trysorlys ac ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau, ond gwnaeth sylw bod y cynllun ar gyfer y flwyddyn nesaf yn uchelgeisiol gyda Gwariant Cyfalaf o £25 miliwn a byddai'r pwyllgor yn monitro hyn drwy ei gyfarfodydd.

### 12. Rhestr wirio rheoli Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)

Ystyriodd yr aelodau Rhestr Wirio Rheoli CIPFA ac awgrymodd y pwyllgor y gallai statws gwyrdd yr holl gamau gweithredu fod yn rhy hael o ystyried y problemau a brofwyd ar ddiwedd y flwyddyn.

Awgrymwyd gwirio'r ddogfen ac ystyried y camau gweithredu a lle y bo'n briodol newid y statws o wyrdd i felyn.

**Cam Gweithredu 45 – Gwirio’r ddogfen ac ystyried y camau gweithredu, a lle y bo'n briodol eu newid o wyrdd i felyn.**

## 13. Amserlen Polisïau Cyfrifyddu a Datganiad Cyfrifon 2025/2026

Ystyriodd yr aelodau'r adroddiad mewn perthynas ag amserlen Polisïau Cyfrifyddu a Datganiad Cyfrifon 2025/2026. Nododd y pwyllgor y cynllun manwl a chwestiynodd a oedd hyn yn ofynnol gan y pwyllgor, a dywedwyd wrthynt fod hyn wedi'i gyflwyno i roi dealltwriaeth i'r aelodau o'r gwaith sydd ar ddod.

Nododd y pwyllgor fod rhai camau gweithredu y dylent fod wedi’u cwblhau heb eu cwblhau ar hyn o bryd, nododd MR fod gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod y rhain yn cael eu cyflawni a bod gwaith ar y trywydd iawn i gyflwyno cyfrifon drafft i Archwilio Cymru ddiwedd mis Mehefin 2026.

Gofynnodd y pwyllgor am gyfarfod rhwng y cadeirydd, ND, EH, a MR tua diwedd mis Mai i roi sicrwydd i'r pwyllgor fod y gwaith yn mynd rhagddo fel y disgwyliwyd.

**Cam Gweithredu 46 – trefnu cyfarfod rhwng y cadeirydd, ND, EH, a MR tua diwedd mis Mai i ystyried y cynnydd sy'n cael ei wneud i sicrhau bod amserlen y Polisïau Cyfrifyddu a'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei dilyn.**

## 14. Diweddariad ar gamau gweithredu y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol

Cafodd yr aelodau adroddiad diweddaru mewn perthynas â'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol.

Roedd y pwyllgor yn fodlon ar yr wybodaeth a oedd yn yr adroddiad.

## 15. Adolygiad Blynyddol o Risg

Ystyriodd y Pwyllgor yr Adolygiad Blynyddol o Risg; nodwyd mai adroddiad safonol yw hwn sy'n nodi'r broses risg.

Ar ôl ystyried yr wybodaeth yn yr adroddiad, cytunodd y pwyllgor ar yr adroddiad.

### 16. Cofrestr risgiau corfforaethol yr heddlu

Darparodd LR adroddiad i'r Pwyllgor yn amlinellu cofrestr risgiau corfforaethol yr heddlu. Cwestiynodd yr aelodau pam fod gan rai risgiau'r un sgôr hyd yn oed pan fo mesurau lliniaru ar waith. Dywedodd LR fod risgiau ar adegau â chydrannau sydd y tu hwnt i reolaeth yr heddlu ond wrth i amser fynd heibio bydd y sgôr yn lleihau wrth i gynnydd cael ei wneud yn erbyn y mesurau lliniaru y cytunwyd arnynt. Felly cytunwyd y byddai LR yn cynnal adolygiad o sgoriau'r heddlu cyn y cyfarfod nesaf.

**Cam Gweithredu 47 – Cynnal adolygiad o sgoriau cofrestr risg yr heddlu.**

### 17. Cofrestr risgiau corfforaethol Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Rhoddodd NE drosolwg o'r adroddiad risg i'r pwyllgor a chynghorodd fod dau risg ar y gofrestr a oedd â'r un sgôr hyd yn oed gyda mesurau lliniaru ar waith. Roedd hyn oherwydd ei fod y tu hwnt i reolaeth yr SCHTh ar hyn o bryd. Roedd y risgiau dan sylw yn ymwneud ag Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data sy'n dibynnu ar yr heddlu i'w datblygu a'r ail yn ymwneud â diddymu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu sydd y tu hwnt i'w rheolaeth.

### 18. Gweithgarwch twyll

Dywedodd NE fod un ymchwiliad i achos o dwyll yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a byddai manylion yr achos yn cael eu rhannu y tu allan i'r cyfarfod.

**Cam Gweithredu 48 – Rhannu manylion yr achos yn ymwneud ag ymchwilio i dwyll ag aelodau y tu allan i'r cyfarfod.**

### 19. Diweddariadau gan yr aelodau

Nododd yr aelodau fod y cyfarfodydd y maent wedi bod yn bresennol ynddynt wedi cael eu trafod yn gynharach yn y cyfarfod hwn.

**Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:**

**23 Mehefin 2026 – Cyfarfod eithriadol o’r Cyd-bwyllgor Archwilio**

**28 Gorffennaf 2026 –Y Cyd-bwyllgor Archwilio**

| Rhif y cam gweithredu | Crynodeb o'r cam gweithredu | I'w yrru yn ei flaen gan | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| 36 | Cynnal adolygiad pellach i ganfod a oes rheolaethau digonol ar waith pan fydd newidiadau'n cael eu gwneud i oriau gwaith unigolyn gyda'r bwriad o osgoi gordaliadau. | LW | **Ar y gweill** |
| 37 | Trefnu cyfarfod ychwanegol o'r pwyllgor ar gyfer diwedd mis Mehefin i ystyried adroddiadau archwilio 2025/2026 sydd heb eu cwblhau. | SCHTh | **Wedi'i gwblhau** – Cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer 23 Mehefin. |
| 38 | Trefnu cyfarfod ychwanegol o'r pwyllgor ar gyfer mis Rhagfyr. | SCHTh | **Ar y gweill** – Dyddiadau posibl yn cael eu ceisio. |
| 39 | Bydd SCHTh yn cysylltu â'r Prif Swyddog Gweithredol i ganfod yr hyn sy'n ofynnol o'r datganiad sydd wedi'i gynnwys yn y cylch gorchwyl, sef "adolygu'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd ar gyfer partneriaethau neu gydweithrediadau arwyddocaol" ac yn rhoi adborth i'r pwyllgor. | SCHTh | **Ar y gweill** – Ymholiadau i'w cynnal gyda chymheiriaid yng Nghymru i asesu beth mae eu Cyd-bwyllgor Archwilio yn ei ystyried. |
| 40 | Dosbarthu cylch gorchwyl a dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd Sicrwydd Archwilio Strategol i'r aelodau a phenodi cynrychiolydd o'r pwyllgor i fod yn aelod o'r bwrdd | MR / SCHTh | **Wedi'i gwblhau** |
| 41 | TIAA i adolygu'r adroddiad archwilio gwreiddiol o'r gyflogres a rhoi sicrwydd pellach i aelodau ynghylch yr adolygiad a gynhaliwyd a'i ganfyddiadau. | TIAA | **Ar y gweill –** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 42 | MM i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio am drefniadau ymgysylltu partneriaeth Fforwm Lleol Cymru Gydnerth. | MM | **Ar y gweill** – Bydd diweddariad pellach yn cael ei ddarparu y tu allan i'r pwyllgor. |
| 43 | Diweddariad i'w ddosbarthu i'r aelodau a gwybodaeth am ganran y presenoldeb mewn hyfforddiant gorfodol y tu allan i'r cyfarfod. | LW | **Wedi'i gwblhau** – Diweddariad wedi'i ddosbarthu i aelodau. |
| 44 | Darparu gwybodaeth i aelodau y tu allan i'r cyfarfod am y cynnydd mewn troseddau penodol tua 2022. | MM | **Wedi'i gwblhau** - Gwybodaeth wedi'i dosbarthu i aelodau. |
| 45 | Gwirio dogfen Rhestr Wirio Rheoli Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ac ystyried y camau gweithredu a lle y bo'n briodol eu newid o wyrdd i felyn. | MR | **Wedi'i gwblhau** |
| 46 | Trefnu cyfarfod rhwng y cadeirydd, ND, EH, a MR tua diwedd mis Mai i ystyried y cynnydd sy'n cael ei wneud i sicrhau bod amserlen y Polisïau Cyfrifyddu a'r Datganiad Cyfrifon yn cael eu dilyn. | SCHTh | **Ar y gweill** – dyddiadau'n cael eu ceisio i drefnu'r cyfarfod. |
| 47 | Cynnal adolygiad o sgoriau cofrestr risg yr heddlu. | LR | **Ar y gweill** - Mae prosesau a pholisi rheoli risg yr heddlu yn dilyn y fframwaith cenedlaethol ar gyfer plismona i gynnwys y sgoriau a'r rheolaethau (matrics risg).<br>Mae gwahaniaeth bach o ran termau, er enghraifft yn 2.6 mae'r polisi'n defnyddio'r termau canlynol.<br>☐ Addasu<br>☐ Derbyn<br>☐ Trosglwyddo<br>☐ Osgoi/Gwrthod |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Ond, mae'r heddlu'n defnyddio'r canlynol<br>☐ Trin<br>☐ Goddef<br>☐ Trosglwyddo<br>☐ Terfynu<br><br>sy'n dilyn canllawiau'r llywodraeth ar gyfer rheoli risg.<br>Yn 2.9 mae'r polisi'n cyfeirio at y 'Model tair llinell' sydd ychydig yn wahanol o ran dehongliad i'r tair llinell o amddiffyniad sydd wedi'i chynnwys yn y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol bob blwyddyn, pan fo'r heddlu'n dilyn canllawiau CiPFA.<br>Mae'r Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg yn 2.11 ychydig yn wahanol gan fod yr un yn Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yr heddlu yn dilyn Llyfr Oren y llywodraeth.<br>Mae adrodd am risg fel eitem sefydlog ar yr agenda ar bob bwrdd goruchwylio sydd mewn grym yr un â'r hyn a ddangosir yn y polisi a phan fo'r polisi'n cyfeirio at gofrestrau is-gwmni; yn yr heddlu, mae rhywbeth tebyg wedi'i gynnwys ym mhob cofrestr risg adrannol fel rhan o'r broses gynllunio strategol a sicrwydd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 48 | Rhannu manylion yr achos yn ymwneud ag ymchwilio i dwyll ag aelodau y tu allan i'r cyfarfod. | SCHTh | **Wedi'i gwblhau -** Gwybodaeth wedi'i dosbarthu i aelodau. |